# Mae Cymorth Cymru yn cyflwyno:

# Symposiwm ar Ddigartrefedd 2023

## 9 Tachwedd, Caerdydd

cymorth cymru
cysylltu • cryfhau • dylanwadu

## Rhaglen

### 9:30-9:40 — Croeso a sylwadau agoriadol

- Katie Dalton, Cymorth Cymru

### 9:40-10:30 — Cynhwysiant Iechyd: Lleihau anghydraddoldebau a gwella deilliannau

- Fiona Kinghorn, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Pleser o'r mwyaf yw croesawu Fiona Kinghorn, Cadeirydd y Grŵp Strategol Cynhwysiant Iechyd Cenedlaethol, i agor ein cynhadledd. Wedi'i sefydlu gan y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd, nod y grŵp hwn yw cefnogi cyd-drefnu strategol o gwmpas darparu gwasanaethau iechyd cyhoeddus a gofal iechyd, i leihau anghydraddoldebau a gwella deilliannau iechyd ar gyfer grwpiau ar y cyrion, yn cynnwys pobl sy'n cael profiad o ddigartrefedd. Mae Fiona'n ymuno â ni i siarad am ei huchelgeisiau ar gyfer y grŵp, a'r dull o weithio a ddefnyddir yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg i gwrdd ag anghenion pobl sy'n cael profiad o ddigartrefedd.

### 10:30-11:00 — Materion Tai: Diweddariad o'r Ymgyrch

- Katie Dalton, Cymorth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru'n paratoi ei Chyllideb Ddrafft am 2024/25 yn yr hyn a ddisgrifiwyd gan y Prif Weinidog fel 'y sefyllfa ariannol anoddaf [maent] wedi ei hwynebu ers datganoli'. Yn y sesiwn hon, bydd Cymorth Cymru yn amlinellu sut rydym yn gweithio gyda Chynghorau Iechyd Cymuned (CHC) a'n haelodau i wneud achos dros fuddsoddi yn y Grant Cynnal Tai. Byddwn yn rhannu'r data a gasglwyd gennym oddi wrth ddarparwyr cymorth, ac yn amlinellu ein cynlluniau ymgyrchu ar gyfer yr wythnosau sydd i ddod, gan annog aelodau i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed yn eglur.

### 11:00-11:30 — Egwyl

### 11:30-12:30 — Digartrefedd ac Anabledd yn y DU

- Dr Beth Stone, Prifysgol Bryste
- Henry, Arbenigwr trwy Brofiad

Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at droi'r llifolau ar fater pwysig – ond un a ddiystyrir yn aml – sef digartrefedd ac anabledd. Bydd Dr Beth Stone, cyd-awdur 'Homelessness and Disability in the UK', yn cyflwyno'i hymchwil a gyhoeddwyd yn ddiweddar, gan dynnu sylw at y rhwystrau a wynebir gan bobl anabl wrth geisio cael cymorth, a dianc rhag digartrefedd, yn cynnwys anhawster i gael diagnosis, amgylcheddau anaddas, a phrinder tai hygyrch. Rydym yn falch o groesawu Henry atom, a bydd e'n rhannu ei arbenigedd ar y broblem hon o bersbectif un sydd wedi byw drwy'r profiad.



cymorth cymru
cysylltu • cryfhau • dylanwadu

## 12:30-13:25 Cinio a rhwydweithio

## 13:25-14:00 Anerchiad y Gweinidog

- **Julie James AS, Gweinidog Newid Hinsawdd, Llywodraeth Cymru**

Mae'n bleser gennym gadarnhau y bydd Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd, yn ymuno â ni yn y gynhadledd wyneb-yn-wyneb gyntaf i'w chynnal ers cyn y pandemig. Bydd y Gweinidog yn siarad am ei huchelgais o wneud digartrefedd yn rhywbeth prin, dros gyfnod byr, na fydd yn ailddigwydd, ac yn cynnwys cynlluniau ar gyfer newid deddfwriaethol radical i wella'r modd rydym yn atal ac yn ymateb i ddigartrefedd yng Nghymru.

## 14:00-15:00 Papur Gwyn: Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd

- **Hannah Fisher, Pennaeth Deddfwriaeth Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd, Llywodraeth Cymru**

Yn dilyn anerchiad y Gweinidog, bydd Hannah Fisher, Pennaeth Deddfwriaeth Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd Llywodraeth Cymru, yn ymuno â ni ac yn rhoi trosolwg o'r Papur Gwyn ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd, a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Bydd Hannah yn amlinellu'r modd y mae argymhellion y Panel Adolygu Arbenigol wedi dylanwadu ar gynigion am newid deddfwriaethol, gyda'r nod o wella ataliad, mabwysiadu dull mwy trawma-wybodus a pherson-ganolog, a chynnwys ystod eang o wasanaethau cyhoeddus.

## 15:00-15:15 Egwyl

## 15:15-16:15 Tai â Chymorth: Y tirlun newidiol yn Lloegr a'r effaith ar Gymru

- **Sophie Boobis, Pennaeth Polisi ac Ymchwil, Homeless Link**
- **Sara James, Pennaeth Polisi a Chyflenwi Tai â Chymorth, Llywodraeth Cymru**

Bydd y sesiwn hon o'n Symposiwm ar Ddigartrefedd yn ystyried y newidiadau i dai â chymorth yn Lloegr, a'r effaith debygol ar wasanaethau yng Nghymru. Yn ymuno â ni fe fydd Sophie Boobis o Cyswllt Digartref / Homeless Link, a fydd yn sôn am y Ddeddf Tai â Chymorth (Goruchwyliaeth Reoleiddiol) 2023 a'r gweithredu i wella ansawdd tai â chymorth yn Lloegr. Yna, bydd Sara James ar ran Llywodraeth Cymru yn amlinellu'r ystyriaethau ar gyfer Cymru, a'r cynlluniau i ddatblygu safonau tai â chymorth mewn partneriaeth â'r sector.

## 16:15-16:20 Sylwadau i gloi

- **Katie Dalton, Cymorth Cymru**

